

❖ MYFYRDOD 'STILLE NACHT'

Stille Nacht! Heilige Nacht!
 Alles schläft, einsam wacht
 Nur das traute hochheilige Paar.
 Holder Knabe im lockigen Haar,
 Schlaf in himmlischer Ruh.

Dyma bennill cyntaf y garol fwyaf adnabyddus erioed. Joseph Mohr ysgrifennodd y geiriau (saith pennill, yn wreiddiol). Ganwyd ef ar 11 Rhagfyr 1792 yn Salzburg. Gweuwraig oedd ei fam a milwr wedi ffoi oedd y tad. Roedd gan ei fam dri phlentyn siawns arall. Roedd y bachgen yn dalentog iawn; aeth i'r Ysgol Ramadeg ac wedyn i'r Lyzeum yn Kremsmünster, lle astudiodd athroniaeth. Ym 1811 aeth i goleg diwinyddol ac ym 1815 ordeiniwyd ef yn offeiriad. Am gyfnod byr roedd ef yn Lungau, lle ysgrifennodd ym 1816 eiriau'r garol. Ym 1817 daeth fel offeiriad cynorthwyol i Oberndorf, ond roedd tyndra rhyngddo ef a'r offeiriad. Hwn a'i cyhuddodd o esgeuluso ei ddyletswyddau, mynychu tafarndai, fflyrtian â menywod a chanu caneuon 'anddyrchafol'. Ond cafodd yr awdurdodau eglwysig y cyhuddiadau hyn yn anwir.

Yma, yn Oberndorf, y daeth Mohr i adnabod Franz Gruber. Ganwyd hwn ar 25 Tachwedd 1787 yn Hochburg, yn un o chwech o blant. Gwehydd oedd ei dad a dyna fu ei waith yntau tan oedd yn 18 oed. Yna hyfforddwyd ef yn athro a daeth ym 1807 i Arnsdorf fel athro yn yr ysgol gynradd ac organydd yn yr eglwys leol, ac ym 1816 daeth yn organydd yn yr eglwys newydd yn Oberndorf yn ogystal.

Ni wyddys yn union pam y gofynnodd Mohr i Gruber gyfansoddi tôn i'w eiriau. Mae ambell chwedl wedi tyfu. Yn ôl un, roedd llygoden wedi cnoi twll ym megin yr organ. Gan fod yr eira mor drwchus, nid oedd modd cael y dyn fyddai'n tiwnio'r organ i ddod i fyny'r cwm i'w thrwsio. Felly, bu raid gwneud trefniadau eraill.

Sicr yw y canwyd y garol yn ystod yr offeren yn eglwys Sant Nikolaus noswyl y Nadolig 1818. Trefniant ar gyfer deuawd ydoedd gyda Gruber yn canu'r bas a Mohr yn canu'r tenor ac yn cyfeilio ar y gitâr.

Mae'n debyg i diwniwr yr organ, a ddaeth y gwanwyn canlynol, glywed am y garol a mynd â hi i'r Zillertal, lle mabwysiadwyd hi gan ddau grŵp canu gwerin a fyddai'n teithio o gwmpas Ewrop yn perfformio mewn cyngherddau. Dyna sut y daeth y garol mor boblogaidd ac, ar ôl iddi gael ei hargraffu ym 1832, ymledodd dros y byd i gyd, wedi'i chyfieithu i lawer o ieithoedd. Ceir enghreifftiau o sawl un ar y We, ac yno y ceir y casgliad mwyaf cynhwysfawr. Dyma ddwy enghraifft:

Noite feliz, noite feliz!
 O Senhor, Deus de Amor,
 Pobrezinho, nasceu em Belém
 Eis na lapa Jesus, nosso Bem.
 Dorme em paz, ó Jesus!

(Portiwgaleg)

Po la'i e, po kamaha'o,
 Maluhia, malamalama
 Ka makuahine aloha e
 Me ke keiki hemolele e
 Moe me ka maluhia lani.

(Hawäieg)

Marcus Wells